Corff Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru
The Representative Body of The Church in Wales

# NODYN CYFARWYDDYD AR REOLI NEUADDAU EGLWYS YN EFFEITHIOL

Date: 08/11/23
Version: 1.1

# NODYN CYFARWYDDYD AR REOLI NEUADDAU EGLWYS YN EFFEITHIOL

Nod y nodyn cyfarwyddyd hwn yw cynorthwyo Cynghorau Plwyf Eglwysig[1] i reoli a chynnal yn well adeiladau Neuaddau Eglwys. Am arweiniad pellach, cysylltwch â Swyddfa eich Esgobaeth leol (a’ch Arolygydd Eglwysi os oes gennych un), eich Archddiacon neu'r Tîm Eiddo Eglwysig yng Nghorff y Cynrychiolwyr y mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y nodyn hwn.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn nodi deg cam i reoli eich Neuadd Eglwys yn effeithiol:


1. Gwirio Perchnogaeth a Ffiniau.
2. Asesu Cyflwr eich Adeilad.
3. Adolygu a rheoli gwasanaethau adeiladau (gwres, goleuadau, trydan, draeniau etc).
4. Rheoli Asbestos.
5. Cadw Pobl yn Ddiogel – Rheoli Iechyd a Diogelwch.
6. Gwirio eich trefniadau Yswiriant.
7. Gwirio Trefniadau ar gyfer defnyddio'r adeilad a'r mynediad iddo.
8. Cynllunio ymlaen llaw wrth wneud newidiadau i'ch adeilad.
9. Anelu at garbon sero net.
10. Adolygu eich Strategaeth.


## 1. Gwirio Perchnogaeth a Ffiniau Beth sy'n eiddo i chi a phwy sydd â'r gweithredoedd?

Os hoffech wneud newidiadau i'r adeilad, newid sut mae’n cael ei weithredu/ei ddefnyddio, neu godi arian grant tuag at waith uwchraddio ac atgyweirio, mae'n bwysig eich bod yn gwybod ar ba sail y mae'r eiddo yn cael ei gadw, a phwy yw'r perchennog cofrestredig.

Mae rhai eiddo yn cael eu cadw mewn Ymddiriedolaeth i'r 'Plwyf' gan Gorff y Cynrychiolwyr, eraill gan Fwrdd Cyllid lleol yr Esgobaeth (BCE). Mae rhai yn cael eu cadw gydag amodau a chyfyngiadau penodol ar ddefnydd, neu fe'i rhoddwyd gyda chyfamodau penodol ynghlwm wrthynt a allai olygu bod cyfyngiadau ar yr hyn y gallwch ei wneud ag ef – mae'n bwysig sefydlu'r manylion hyn.

[1] *Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" yn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r neuadd. Gellir adnabod y cyrff hyn hefyd fel y Cyngor Ardal Weinidogaeth, Cyngor Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau'r esgobaeth.*

Cysylltwch â Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr, yn y lle cyntaf, i gadarnhau pa gofnodion, os o gwbl, sy'n cael eu cadw ganddynt yn ganolog, a pha fanylion a gedwir gan y Gofrestrfa Tir.

## 2. Asesu Cyflwr eich Adeilad Beth yw cyflwr yr adeilad, ei diroedd, ffyrdd mynediad, maes parcio a'i ffiniau?

Mae'n bwysig bod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o gyflwr eich neuadd. Does dim angen i hyn fod mor fanwl ag adroddiad arolwg pum mlynedd llawn fel y gwneir ar gyfer eich eglwys, ond gall ddarparu fformat defnyddiol o bethau i gadw llygad amdanynt.

Dylech ystyried penodi syrfëwr adeiladu neu bensaer cymwys i arolygu'r adeilad ond dylech wneud archwiliad gofalus eich hun hefyd. Edrychwch ar bob elfen a gwnewch asesiad diduedd o sut y cafodd ei adeiladu, yr hyn y mae wedi'i wneud ohono, pa mor hen ydyw, pryd y cafodd ei atgyweirio neu ei adnewyddu ddiwethaf, a pha waith y gallai fod angen i chi gynllunio i'w wneud dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Nodwch beth sydd ddim yn edrych yn iawn a gwnewch restr hyd yn oed os nad ydych yn gwybod yr achos - gallwch wedyn ofyn am gyngor arbenigol ar yr hyn rydych wedi'i weld.

Mae canllawiau defnyddiol a pherthnasol iawn ar gael gan y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB) ac, er eu bod wedi'u hanelu at addoldai, gellir eu cymhwyso yn yr un modd i neuaddau eglwys:

https://www.spab.org.uk/campaigning/maintenance-matters
https://www.spab.org.uk/campaigning/maintenance-co-operatives-project/mcp-fim-resources

Gallai'r adeilad fod yn adeilad rhestredig neu wedi'i osod o fewn Ardal Gadwraeth. Os yw ar dir adeilad rhestredig (er enghraifft, o fewn mynwent eglwys restredig) gellir ei ystyried yn adeilad o fewn cwrtil adeilad rhestredig ac felly caiff ei ystyried yn adeilad rhestredig hefyd. Bydd hyn yn golygu y gallai fod angen cydsyniad adeilad rhestredig neu ganiatâd hawleb ar y gwaith i'ch adeilad. Cysylltwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol eich Esgobaeth (PYE) a/neu eich Arolygydd Eglwysi. Gellir dod o hyd i fanylion am adeiladau rhestredig ar wefan Cadw: https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw?_gl=1*1jmt07v*_ga*NTkyOTgwOTIzLjE2OTU4MTI3OTM.*_ga_B2BCVKM874*MTY5NTgxMjk4OS4xLjAuMTY5NTgxMjk4OS42MC4wLjA.

## 3. Adolygu a Rheoli Gwasanaethau Adeiladu (Gwresogi, Goleuo, Trydan, Draeniau ac ati) Pa wasanaethau adeiladu sydd gan eich adeilad ac a ydynt mewn cyflwr da ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda?

Sut mae'r adeilad yn cael ei wresogi (neu ei oeri os oes gennych aerdymheru)? Ym mha gyflwr y mae eich cylchedau trydanol gwifro sefydlog a'ch dyfeisiau cludadwy? Oes gennych chi larymau panig mewn cyfleusterau toiled hygyrch, lifft neu ramp mecanyddol? Larwm mwg neu larwm tân neu system chwistrellu?

Mae angen cynnal a chadw a gwasanaethau'r holl systemau hyn yn rheolaidd, sydd yn aml yn ofyniad statudol. Dylech bob amser sicrhau bod y rhain yn gyfredol a bod cofnodion yn cael eu cadw ar y safle. Dylech dderbyn cyngor gan beirianwyr arbenigol ar eich systemau i ddeall eich rhwymedigaethau.

Dylai gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw gael ei wneud gan beirianwyr arbenigol cymwys yn unig sy'n gallu ardystio eu gwaith - gofynnwch i Swyddfa'r Esgobaeth neu Dîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr am gyngor neu arweiniad os oes angen.

## 4. Rheoli Asbestos Ydych chi'n gwybod a oes gan eich adeilad unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos, ac os felly, beth yw ei gyflwr a sut ydych chi'n ei reoli?

Mae'n ofyniad cyfreithiol i chi reoli asbestos yn eich adeiladau drwy:

- Cael Arolwg Rheoli Asbestos (gan gynnwys cofrestr asbestos sy'n dangos lle mae'r asbestos).
- Cael arolwg Ailwampio a Dymchwel lle rhagwelir gwaith adeiladu sylweddol.
- Monitro'n rheolaidd fel a ganlyn:
  - Gwirio'r gofrestr asbestos, o leiaf bob blwyddyn.
  - Diweddaru'r gofrestr asbestos pryd bynnag y bydd gwaith yn cael ei wneud ar ddeunyddiau asbestos.
  - Gwirio deunyddiau o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau nad ydynt wedi dirywio.
  - Adolygu'n Flynyddol

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn darparu canllawiau clir ar gyfer perchnogion adeiladau (sef y CPE, at ddibenion asbestos) sydd ar gael yma:

https://www.hse.gov.uk/asbestos/building-owner.htm

https://www.hse.gov.uk/asbestos/duty.htm

Mae arolygon ac adroddiadau asbestos ar gael yn rhwydd drwy Maintenance Booker:

https://www.maintenancebooker.org.uk/services/asbestos

## 5. Cadw Pobl yn Ddiogel – Rheoli Iechyd a Diogelwch Asesu peryglon a datblygu Asesiadau Risg

Byddwch am sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'ch neuadd yn cael eu cadw'n ddiogel. Dylai fod gan eich Cyngor Plwyf Eglwysig Bolisi Iechyd a Diogelwch ysgrifenedig sy'n nodi ei ddull o reoli peryglon yn ei safleoedd a'i weithgareddau. Mae peryglon yn cael eu rheoli drwy asesiad risg - proses o ystyried y tebygolrwydd y bydd peryglon yn achosi niwed a datblygu mesurau i leihau'r risgiau.

Yn ogystal â'r risg sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos, mae'n bwysig bod asesiad risg ar gael ar gyfer yr adeilad a'r gweithgareddau a wneir yno. Drwy baratoi'r asesiad risg, dylech gadw mewn cof y mathau o weithgareddau a fydd yn digwydd yn yr adeilad - bydd pethau penodol i'w cofio os oes darpariaeth weithgareddau ar gyfer plant ifanc, i'r rhai â dementia, i'r rhai sydd â chyfyngiadau symudedd, ac ati. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar wefan Ecclesiastical Insurance:

https://www.ecclesiastical.com/documents/risk-assessment-guidance.pdf

https://www.ecclesiastical.com/documents/example-risk-assessment.pdf

## 6. Gwirio eich Trefniadau Yswiriant

Mae'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn gyfrifol am drefnu yswiriant y neuadd ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cysylltiedig. Er eich bod yn rhydd i yswirio gyda pha gwmni bynnag sydd orau gennych, rydym yn argymell eich bod yn yswirio drwy Ecclesiastical Insurance er mwyn sicrhau bod eich polisi ar gyfer yr eglwys a'r neuadd wedi'u cydlynu. Mae manylion telerau ac amodau polisi Ecclesiastical Insurance, a gwybodaeth a chanllawiau defnyddiol eraill ar gael yma:

https://www.ecclesiastical.com/church/church-hall-insurance/

# 7. Gwirio trefniadau ar gyfer defnyddio'r adeilad a'r mynediad iddo Defnyddwyr, prydlesi a thrwyddedau

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi datblygu templed Cytundeb Llogi i grwpiau allanol sydd am ddefnyddio Neuaddau'r Eglwys fesul sesiwn ac mae ar gael yma:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Hiring_Agreement_January_2022_WELSH2.pdf

NID yw hwn yn addas ar gyfer defnydd tymor hir o'r adeilad neu rannau o'r adeilad gan grwpiau allanol lle gall y grwpiau hynny reoli'n gyfan gwbl ran o'r adeilad, ei diroedd, neu'r adeilad cyfan – er enghraifft, lle mae gan feithrinfa plant ddefnydd unigryw o ddwy ystafell yn yr adeilad ac na all neb arall ddefnyddio'r gofod ar adegau eraill. Mewn achosion o'r fath, cysylltwch â'r Tîm Eiddo Eglwysig yng Nghorff y Cynrychiolwyr am arweiniad pellach. Efallai y bydd angen prydles fwy ffurfiol o dan amgylchiadau o'r fath; gall y cytundeb anghywir olygu rhoi hawliau anfwriadol i feddianwyr.

### Hygyrchedd

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru a'i holl rannau cyfansoddol rwymedigaethau – cyfreithiol a moesol – i sicrhau bod ein hadeiladau a'n gweithgareddau yn rhesymol hygyrch i bawb. Gall hyn gynnwys y rhai sydd â symudedd cyfyngedig (gydag eitemau fel mynediad ac allanfa ar ramp, cyfleusterau toiled hygyrch, etc), ond hefyd y rhai sydd â namau eraill e.e. nam ar eu golwg a nam ar eu clyw.

Dylid ystyried hyn fel rhan o'ch adolygiad o'r safle, ac yn enwedig pan fydd unrhyw waith addasu yn cael ei gynnig – mae Rheoliadau Adeiladu yn mynnu bod unrhyw waith yn ystyried hyn. Bydd eich cynghorwyr proffesiynol yn gallu helpu mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae rhywfaint o ganllawiau defnyddiol ar wefan Church Care Eglwys Loegr sydd ar gael yma:

https://www.churchofengland.org/resources/churchcare/advice-and-guidance-church-buildings/accessibility

Mae hyn wedi'i ymgorffori ym Mholisi Cyfle Cyfartal yr Eglwys yng Nghymru y gellir ei gyrchu yma: https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/clergy-handbook/equal-opportunities-policy/ ac yn neddfwriaeth Deddf Cydraddoldeb Llywodraeth y DU 2010 sydd ar gael i'w gweld yma: https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance

## 8. Cynllunio ymlaen llaw wrth wneud newidiadau i'ch adeilad

Dylid ceisio cyngor proffesiynol bob amser cyn cychwyn ar brosiect adeiladu – yn ddelfrydol gan syrfëwr adeiladu neu bensaer profiadol sydd â chymwysterau addas. Dylai Tîm Eiddo eich Esgobaeth leol allu eich helpu i ddod o hyd i gynghorydd addas. Dylai eich cynghorydd helpu i ddatblygu manyleb addas, dyluniad, sicrhau cysyniadau a chymeradwyaethau angenrheidiol (hawleb os oes angen, cydsyniad adeilad rhestredig, caniatâd cynllunio, a chymeradwyaethau rheoliadau adeiladu, er enghraifft), cael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith, a goruchwylio'r gwaith eu hunain.

Cyn cychwyn ar unrhyw gynllun, yn ogystal â chael cysyniadau statudol, bydd angen i chi sicrhau cytundeb Pwyllgor yr Eglwys/y Cyngor Plwyf Eglwysig (gan gynnwys Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol). Mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau sy'n ymwneud â phrosiectau eglwysig hefyd yn berthnasol i neuaddau eglwys o ran arferion da/gorau:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Church_Building_Projects_and_Safety_v3.pdf

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Managing_Small_Church_Building_Projects_v2.pdf

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Managing_Large_Church_Building_Projects_v2.pdf

Mae'n debygol y byddwch yn ceisio cymorth grant ar gyfer eich prosiect. Mae rhai cyllidwyr grantiau yn hapus i gynnig cymorth i brosiectau penodol i uwchraddio cyfleusterau cymunedol, fel Neuaddau Eglwys, yn enwedig lle bydd yn cynyddu ac yn gwella mynediad at wasanaethau i'r rhai na allent gael mynediad iddynt fel arall. Dylech bob amser ymgynghori â'ch Pwyllgor Eglwysig ac Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol cyn ymrwymo i becyn ariannu gan fod y rhain yn aml yn dod â rhwymedigaethau y bydd angen i Ymddiriedolwyr yr Elusen Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol fod yn ymwybodol ohonynt.

Efallai y bydd arianwyr eisiau llythyr cydsyniad hefyd gan ddeiliad teitl cyfreithiol yr adeilad (Corff y Cynrychiolwyr neu'r Cyngor Plwyf Eglwysig), felly gwnewch yn siŵr eich bod yn eu hysbysu o'r prosiect ac o'r cais am grant mewn da bryd.

## 9. Anelu at garbon sero net Effeithlonrwydd Ynni

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i gyflawni Carbon Sero Net erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys neuaddau eglwys, eglwysi, persondai a'n gweithgareddau amrywiol a gynhelir yn ein hadeiladau.

Mae adnoddau a chanllawiau defnyddiol a hawdd eu defnyddio ar dudalen we Newid Hinsawdd yr Eglwys yng Nghymru y gellir ei chyrchu yma: https://www.churchinwales.org.uk/cy/about-us/our-campaigns/environment/

Ein defnydd o systemau gwresogi tanwydd ffosil yw’r ffynhonnell allyriadau carbon fwyaf o bell ffordd yn ein neuaddau eglwys. Os ydych yn rhagweld y bydd angen i chi newid eich offer gwresogi yn y dyfodol agos, dylech ddechrau meddwl am beth allwch gael yn ei le cyn iddo fethu. Siaradwch â'ch Arolygydd Eglwysi Esgobaethol, Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol eich Esgobaeth, Hyrwyddwr Newid Hinsawdd Corff y Cynrychiolwyr a Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr am gyngor, ac ystyriwch ymgysylltu ag arbenigwr addas i adolygu eich defnydd o ynni a'r opsiynau a allai fod ar gael i chi.

Mewn adeilad cymharol fodern, heb ei restru o bosibl, mae'r opsiynau ar gyfer inswleiddio ac atal drafftiau yn ehangach ac yn fwy amrywiol nag ar gyfer neuadd eglwys restredig – mae adeilad sydd wedi'i gynnal a'i gadw yn dda, sy'n ddiddos a heb ddrafftiau eisoes yn mynd i fod yn fwy effeithlon o ran carbon nag un mewn cyflwr gwael sy'n llaith ac yn ddrafftiog! Mae'n bwysig bod cyngor priodol yn cael ei dderbyn er mwyn sicrhau bod unrhyw system newydd yn fforddiadwy i'w rhedeg ac yn effeithiol yn ogystal ag yn effeithlon o ran ynni.

Ar gyfer y safleoedd hynny nad ydynt yn defnyddio llawer o ynni, a/neu sydd â pheiriannau sydd mewn cyflwr da ar hyn o bryd, dylech barhau i gynnal a chadw eich offer a siarad â Swyddfa'r Esgobaeth a chydweithwyr yng Nghorff y Cynrychiolwyr am gynlluniau Gwrthbwyso Carbon a argymhellir.

Fel man cychwyn ewch i'r Fframwaith Carbon Sero Net y gellir ei gyrchu yma:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/2205_-_Fframwaith_Carbon_Sero_Net_yr_Eglwyn_yng_Nghymru_-_Terfynol_-_2022.pdf

a'r Pecyn Cymorth Ynni y gellir ei gyrchu drwy'r ddolen hon: https://eft-wales.parishreturns.info/

# 10. Adolygu eich Strategaeth Ydy’ch neuadd eglwys yn ased ar gyfer cenhadaeth neu'n faich?

Rydych yn dal eiddo naill ai'n uniongyrchol fel y gellir cyflawni cenhadaeth ac allgymorth, neu er mwyn helpu i godi arian i ariannu cenhadaeth ac allgymorth.

Os yw eich neuadd yn eich galluogi i estyn allan i'ch cymuned er mwyn darparu amrywiaeth o weithgareddau i bobl na fyddech fel arall yn dod i gysylltiad â nhw, a/neu'n helpu i godi digon o arian i dalu am ei chostau a chyfrannu tuag at gostau rhedeg yr eglwys, yna gwych! Mewn rhai achosion, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall rhedeg y neuadd ddod yn faich, ac na fydd yr incwm prin yn talu'r costau rhedeg mewn gwirionedd. Mae'n bwysig eich bod yn asesu'n rheolaidd a yw'r neuadd yn

cyfoethogi bywydau cymuned eich eglwys a'ch cenhadaeth a'ch allgymorth, neu a yw'n dwyn eich amser a'ch adnoddau.

Os yw neuadd wedi mynd yn dipyn o faich neu os gellir cynnal ei gweithgareddau yn eich eglwys, mae'n bryd ystyried ei gwerthu, neu ei phrydlesu i grŵp cymunedol arall i'w rhedeg. Cysylltwch â'ch corff Ymddiriedolwyr Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol, eich Archddiacon, Swyddfa'r Esgobaeth a Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr os ydych chi'n ystyried newid o'r fath. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cau neu osod yn golygu y bydd angen penderfyniad gan Bwyllgor yr Eglwys a Phwyllgor yr Ardal Weinidogaeth/Ardal Weinidogaeth Leol, cefnogaeth gan eich Archddiacon a chytundeb gan eich Bwrdd Eiddo Esgobaethol. Os yw'r gweithredoedd yn cael eu dal gan Gorff y Cynrychiolwyr yna bydd angen i Bwyllgor Eiddo'r Dalaith hefyd gytuno i'r newid arfaethedig.

Mae nodyn cyfarwyddyd pellach yma:

https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/Church_Hall_Closure_and_Disposal_Guidance_Note_Version_1.1._March_2022_WELSH2.pdf

Manylion cyswllt:
Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd
CF10 5BT
Ffôn: 02920 348200

E-bost: property@churchinwales.org.uk